

Y Pwyllgor Archwilio

Cofnodion (AC(2)-06-05)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 23 Mehefin 2005

Amser y cyfarfod: 9.30am – 12.20pm

Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3 a 4

Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Aelod Cynulliad	Etholaeth
Janet Davies (Cadeirydd)	Gorllewin De Cymru
Mick Bates	Sir Drefaldwyn
Alun Cairns	Dwyrain De Cymru
Jeff Cuthbert	Caerffili
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru
Mark Isherwood	Gogledd Cymru
Irene James	Islwyn
Denise Idris Jones (Eitem1 a 2)	Conwy
Catherine Thomas (Eitem 1)	Llanelli
Carl Sargeant	Alun a Glannau Dyfrdwy

Eraill yn Bresennol

Enw	Yn cynrychioli	Eitem(au)

Ann Lloyd	Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1 a 2
Chris Daws	Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1
John Sweeney	Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd	2

Swyddogion yn bresennol

Enw	Teitl swydd
Jeremy Colman	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Martin Peters	Swyddfa Archwilo Cymru
Gillian Body	Swyddfa Archwilo Cymru
James Verity	Swyddfa Archwilo Cymru
Matthew Coe	Swyddfa Archwilo Cymru
Ian Summers	Swyddfa Archwilo Cymru
Ian Gibson	Swyddog Cydymffurfio Cynorthwyol y Cynulliad

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Enw	Teitl swydd
Kathryn Jenkins	Clerc y Pwyllgor
Ruth Hatton	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Leighton Andrews wedi ymddiheuro a chroesawodd Jeff Cuthbert fel dirprwy.

1.3 Datganodd y Cadeirydd fuddiant fel perchennog cyfranddaliadau yn GlaxoSmithKline.

Eitem 2: Cyllidebau GIG Cymru 2005

Papur: AC(2) 06-05(p1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth y Cynulliad, a Chris Dawns, Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Adnoddau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Camau i'w cymryd: Cytunodd Ann Lloyd i ddarparu'r canlynol:

- copi o'r adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol yn egluro pam fod cyfrifon bwrdd iechyd lleol Powys wedi'u cyflwyno'n hwyr
- gwybodaeth am y modd y mae'r cerdyn sgorio cytbwys yn cael ei ehangu
- copi o'r adroddiad diweddaraf ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn gydag argymhellion adroddiad Wanless.
- gwybodaeth yn dangos i ba raddau y mae GIG Cymru wedi sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng y rhaglen newid a'u gallu i ddarparu gofal.

Eitem 3: Caffael Meddyginiaeth Gofal Sylfaenol

Papur: AC(2) 06-05(p2)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mrs Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth y Cynulliad a Mr John Sweeney, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd, Llywodraeth y Cynulliad.

Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff

Papur: AC(2) 06-05(p.3, p.4, p.5)

4.1 Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Pwyllgor fod ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'w adroddiad, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff yn anfoddhaol. Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Pwyllgor y gallai naill ai alw tystion yn ôl neu gallai'r Cadeirydd ysgrifennu ar y Gweinidog yn egluro pam nad oedd yr ymateb yn foddhaol.

4.2 Awgrymodd Alun Cairns y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu'n gyntaf at y Gweinidog fel yr awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol ac os na fyddai'n cael ymateb boddhaol wedyn, yna gellid galw'r tystion yn ôl.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor â'r awgrym hwn. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddent yn cael copi o'r llythyr.

Eitem 5: Papur i'w nodi - Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch prydlesu trenau Sprinter i'w defnyddio ar rwydwaith y Valley Lines.

Papur: AC(2) 06-05(p6)

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur

Eitem 6: Adroddiad Blynyddol i'r Cyfarfod Llawn: AC(2) 06-05(p7)

6.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyfarfod Llawn.

Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blynyddol

Papur: AC(2) 05-05(mins)

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2005.